

John Hugh Jones (1902 - 1966), Rhafod, Llangwm: amaethwr, adroddwr, storiwr, dyddiadurwr a bardd

Ganed, 8 Ebrill 1902, ym Mhen-dre, fferm fechan ar fin yr A5 yn ardal Ty Nant, Plwyf Llangwm, sir Ddinbych. Bu yn Ysgol Dinmael, ac wedi ymadael bu'n cynorthwyo ei dad, Hugh Jones, gartref ar y fferm (bu farw'i fam, Margaret Jones (Parry cyn priodi) pan oedd JHJ yn wythmlwydd oed). Priododd Elizabeth Owen, Rhafod, Llangwm.

Yn 1935, ymhen chwe blynedd wedi priodi, gwerthwyd Pen-dre, a symudodd ef a'i briod a'u dau fab, Tegwyn ac Eifion, i fyw i Rhafod at rieni ei briod. Fferm lied fynyddig yw Rhafod, tua chan acer a mwy, bryd hynny. O ran lleoliad, yr oedd tua dwy filltir o bellter o'r pentrefl agosaf: Llangwm, Cerrigydrudion a Llanfihangel Glyn Myfyr. Adeiladwyd y ty presennol (1868) gan Anne a Michael D Jones, Y Bala, perchnogion y fferm ar un adeg. Ef (MDJ) a roes yr enw ar y ty newydd. Foty Arddwyfan oedd enw'r hen dy. Symudodd John Hugh Jones a'i briod o Rhafod i Hiraethog, Cerrigydrudion, yn 1961. Bu farw 2 Ionawr 1966.

Wedi symud i Rhafod yn 1935 (oherwydd llesgedd ac oedran ei dad yng nghyfraith, Owen Owens) bu raid i John Hugh Jones weithio'n galed i adfer y fferm i'w phriod ogoniant. Edrychid arno fel amaethwr blaengar. Er enhraifft, rhoes sylw arbennig i ail-godi'r waliau cerrig a gosod llidiardau ar adwyon; llosgi'r mynydd a throï tir glas; agor draen gyda chaib a rhaw, bron filltir o hyd o Ffridd Llyn, ger y mynydd, i gael dwr glan i'r ty (gynt byddem yn cario dwr o'r ffynnon); gosod peiriant cynhyrchu trydan yn yr hofel (Rhafod oedd un o'r ffermydd cyntaf yn yr ardal i allu cynhyrchu trydan at wasanaeth y ty a'r adeiladau); adeladu ffordd newydd sbon, tua hanner milltir o hyd, wedi'i phalmantu'n ofalus a cherrig, bob cam o Felin Pen-Gaer i fuarth Rhafod yn nyddiau cynnar y car modur. Ar fferm Rhafod hefyd droeon ym mhumdegau a chwedegau'r 20fed ganrif y cynhelid Rali Clwb Ffermwyr Ifanc Uwchaled, gydag amrywiol gystadlaethau ym maes fferm a chegin.

Cyfnod dyddiaduron JHJ, 1945 - 60. Fferm gymysg oedd Rhafod: defaid (Cymreig), gwartheg (broc), ieir a moch. Roedd Tegwyn (g. 1931), mab hynaf JHJ, wedi ymadael yn ifanc o Ysgol Llangollen i gynorthwyo gartref ar y fferm. Cyfeirir ato ef yn fynych yn y dyddiaduron. Hefyd cyfeirir yn ami at yr ail fab, Eifion (g.1933). Gweithiai ef yn ogystal ar ffermydd eraill yn yr ardal. Gweithio'n llwyr ar ffermydd eraill a wna'i'r trydydd mab, Aeryn (g. 1939). Euthum i, Gwyndaf (g. 1941), y pedwerydd mab, i'r coleg yn 1959. Cyfeirir yn achlysurol yn y dyddiaduron hefyd at ddwy ferch JHJ:

Margaret Glenys (g. 1944), a Rhiannon Owen (g. 1947). Yn ystod y cyfnod tua 1950 - 60 bu JHJ yn dioddef o glefyd siwgr, clefyd y galon, a llesgedd. Pan oedd yn ddigon cryf i weithio, gwaith ysgafh yn unig a gyflawnai, ac adlewyrchir hynny yn ei ddyddiaduron. Gwnai ei orau bob amser hefyd i gadw'r buarth, yr adeiladau, y caeau a'r cloddiau yn daclus.

Gwybodaeth bellach am fferm Rhafod: gweler cyfrol Tegwyn Jones, **Llawer Hafynyr Hafod: Atgofion Amaethwr o Uwchaled**, Gwasg Carreg Gwalch, 2001.

Prif ddiddordebau John Hugh Jones. 1 Sgwrsio, adrodd stori'au a chynnal cymdogaeth dda. 2. Y capel (Cefh Nannau, M.C., Llangwm). Bu'n athro Ysgol Sul ar ddosbarth o bobl ifanc er pan oedd yn fachgen ifanc ei hun. 3. Adrodd a hyfforddi adroddwyr. 4. Prydyddu: cerddi troeon trwstan, cerddi dathlu priodas, a chystadlu mewn eisteddfodau, yn arbennig yn ystod cyfnod ei lesgedd: limrigau, llinellau coll a chaneuon ysgafh.

Gwybodaeth bellach am John Hugh Jones:

- I. **Denbighshire Free Press and North Wales Times**, 15 Ionawr 1966. (Coffad)
- II. Harri G Parri, T Gofio John Hugh Jones', **Baner ac Amserau Cymru**, 10 Chwefror 1966, t, 2.
- III. Robin Gwyndaf, 'Traddodiad yr Hen Bennill a'r Rhigwm yn Uwchaled', rhan 5, **Allweddy Tannau**, 39, 1980, tt.63 - 66.
- IV. Soned i JHJ, gan Lewis T Evans.